# ISA Arian Parod Nodweddion Allweddol

keyfacts®



SWANSEA
BUILDING SOCIETY
Sefydlwyd 1923

FSCS
Protected

# Eich helpu i benderfynu

**Rydym yn darparu'r wybodaeth bwysig hon i'ch helpu chi i benderfynu a yw ein Cyfrif Cynilo Unigol Arian Parod (ISA Arian Parod) yn iawn i chi. Dylech ddarllen y ddogfen hon yn ofalus er mwyn i chi ddeall beth yr ydych yn ei brynu, ac yna'i chadw'n ddiogel er mwyn cyfeirio ati yn y dyfodol.**

- Mae'r Ddogfen Nodweddion Allweddol hon yn rhoi gwybodaeth i chi ar brif nodweddion, buddiannau a pheryglon ein ISA Arian Parod.
- Dylech hefyd ddarllen ein:
  - Telerau Ac Amodau Cynnyrch-benodol ISA Arian Parod
  - Telerau ac Amodau Cyffredinol ar gyfer Gweithredu Cyfrifon Buddsoddi a'n
  - Taflen Cyfraddau Llog ar gyfer Cyfrifon Buddsoddi.

## Cwestiynau ac Atebion

**Beth yw'r ISA Arian Parod?**

- Mae'r ISA Arian Parod neu'r Cyfrif Cynilo Arian Parod Unigol yn gynnyrch cynilo treth-effeithiol sy'n eich galluogi i wneud taliadau cyson a / neu un-tro i gyfrif cynilo gyda ni, yn amodol ar derfynu uchaf blynyddol a osodir gan y Llywodraeth.

**Beth yw'r buddion?**

- Mae'n eich galluogi i dderbyn llog di-dreth ar eich cynilon.
- Chi sy'n dewis pa mor aml a faint y byddwch yn talu i mewn i'r ISA Arian Parod. Pan fyddwch chi'n gwneud taliadau cyson i'r ISA Arian Parod, gallwch ddechrau / gorffen neu amrywio'r taliadau hyn ar unrhyw bryd.
- Gallwch godi arian yn rheolaidd neu ar un tro o'r ISA Arian Parod a gallwch ei gau ar unrhyw adeg. Bydd codi arian o'r ISA Arian Parod yn lleihau ei werth, serch hynny.

**Beth yw'r peryglon?**

- Ni allwn sicrhau beth fydd gwerth yr ISA Arian Parod yn y dyfodol. Ceir nifer
  - resymau dros hyn gan gynnwys:
  - gall y gyfradd llog amrywiol sy'n berthnasol i'r ISA Arian Parod newid o bryd i'w gilydd.
  - Gallai unrhyw newidiadau i'r rheolau treth, er enghraifft, gallai newid leihau'r driniaeth drethiannol ffafriol y mae ISAs Arian Parod yn eu derbyn ar hyn o bryd.

**Pwy sy'n gallu agor ISA Arian Parod?**

- Gellir agor ISA Arian Parod gan unrhyw unigolyn sydd yn 18 mlwydd oed neu'n hŷn.
- Rhaid i chi hefyd fod yn preswylio'n arferol o fewn y DU ar gyfer pwrpasau treth, neu'n gyflogai'r Goron sy'n gwasanaethu dramor, neu'n briod â neu mewn partneriaeth sifil â chyflogai'r Goron o'r math hwnnw i agor yr ISA Arian Parod.
- Ni all yr ISA Arian Parod fod yn gyfrif ar y cyd.

**Faint ydw i'n gallu'i fuddsoddi mewn ISA Arian Parod?**

- Y lleiafswm ar gyfer agor ISA Arian Parod yw £1.00
- Y mwyafswm y gallwch ei dalu i ISA Arian Parod yn y flwyddyn dreth bresennol yw £20,000.

- Os ydych chi'n buddsoddi yn eich ISA, gallwch dynnu arian ohono a rhoi'r arian hwnnw yn ôl i mewn cyn diwedd yr un flwyddyn ariannol, heb iddo gyfrannu ymhellach at eich lwfans ISA blynyddol. I weld enghreifftiau o sut y gall hyn weithio'n ymarferol, ewch i'n hadran Ffurflenni isod os gwelwch yn dda, a chliciwch ar y ddogfen ISA Hyblyg i Gwsmeriaid. Bydd ein staff yn barod i'ch helpu i ddeall sut mae hyn yn gweithio hefyd.
- Gallwch dalu i mewn i gyfrifon ISA Arian Parod lluosog yn ystod pob blwyddyn dreth yn amodol ar Reoliadau ISA sydd mewn grym ar y pryd. Serch hynny, dim ond tanysgrifiad y flwyddyn bresennol y mae modd i chi ei dalu i mewn i gyfrif ISA Arian Parod un Gymdeithas yn ystod y flwyddyn dreth. Serch hynny, gallwch drosglwyddo i mewn danysgrifiadau blynyddoedd blaenorol i gyfrifon ISA Arian Parod lluosog Cymdeithas yn ystod y flwyddyn dreth, yn ddibynnol ar Reoliadau ISA sydd mewn grym ar y pryd.

**Pa log fyddaf i'n ei ennill ar yr ISA Arian Parod?**

- Telir ein llog ar gyfradd amrywiol ar ein ISA Arian Parod.
- I gael gwybod cyfraddau llog presennol edrychwch ar ein Taflen Cyfraddau Llog ar gyfer Cyfrifon Buddsoddi, sydd ar gael o'n Swyddfeydd neu ar ein gwefan, www.swansea-bs. co.uk.

**Ydw i'n gallu newid fy meddwl?**

- Os ydych chi'n newid eich meddwl o fewn y 14 diwrnod cyntaf ar ôl i chi agor yr ISA Arian Parod, gallwch ddiddymu'r ISA Arian Parod drwy roi gwybod i ni yn ystod y cyfnod hwn yn ysgrifenedig neu drwy ffonio, ffacsio neu e-bostio atom yn ein cyfeiriad isod. Os nad ydych chi'n canslo'r ISA Arian Parod, byddwch yn ymrwymedig i'w delerau ac amodau.
- Os ydych chi'n newid eich meddwl ar ôl y cyfnod 14 diwrnod, gallwch drosglwyddo eich ISA Arian Parod i ddarparwr arall neu godi eich arian i gyd a chau'r ISA Arian Parod.

## Sut i gwyno

- Rydym wedi ymroi i gynnal y safonau uchaf wrth ddelio â chi. Serch hynny, pe baech chi'n teimlo fod gennych gŵyn yn codi o ddefnyddio ein cynnyrch neu wasanaethau, mae gennym weithdrefn fewnol ar gyfer delio â chwynion yn deg ac yn gyflym. Am ragor o wybodaeth edrychwch ar ein Taflen Wybodaeth Gweithdrefnau Cwynion Mewnol, sydd ar gael o ofyn amdano.
- Os nad ydych, ar ôl dilyn ein gweithdrefnau cwyno mewnol, yn dal yn fodlon â'n penderfyniad terfynol ynghylch eich cwyn, fe all y byddwch eisiau cyfeirio'r mater i'r Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol am ein bod ni'n aelod o'r Cynllun Ombwdsmon Gwasanaethau Ariannol. Gellir cael gwybodaeth am y cynllun hwn, gan gynnwys manylion cyswllt ar gyfer yr Ombwdsmon, oddi wrthym ni drwy ofyn amdanynt, a chânt eu cyflenwi'n awtomatig fel rhan o'n gweithdrefnau cwyno mewnol.

## Iawndal

- Rydym yn aelod o'r Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol a gall y bydd iawndal ar gael o dan y cynllun hwn os nad ydym yn gallu cwrdd â'n rhwymedigaethau. Cyfyngir taliadau o dan y Cynllun hwn i 100% o'r £85,000 cyntaf o gyfanswm cynilon buddsoddwr gyda ni. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y Cynllun gennym o ofyn amdano.

## Rhagor o wybodaeth

**Sut i gysylltu â ni:** - Gwelwch ar draws y tudalen.



SWANSEA
BUILDING SOCIETY
Sefydlwyd 1923

www.swansea-bs.co.uk

SBS (CISAKF 0424)

Awdurdodir Swansea Building Society gan yr Awdurdod Rheoleiddio Ariannol a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a'r Awdurdod Rheoleiddio Ariannol. Rhif Cofrestr Gwasanaethau Ariannol: 206066

**Prif Swyddfa**
11-12 Stryd Cradock, Abertawe SA1 3EW
01792 739100 | swansea@swansea-bs.co.uk

**Caerfyrddin**
13-14 Heol Awst, Caerfyrddin SA31 3AQ
01267 611950 | carmarthen@swansea-bs.co.uk

**Y Bont-faen**
75 Stryd Fawr, Y Bont-faen, CF71 7AF
01446 506000 | cowbridge@swansea-bs.co.uk

**Y Mwmbwls**
496 Heol Mwmbwls, Abertawe SA3 4BX
01792 739200 | mumbles@swansea-bs.co.uk

**Abertawe**
1-4 Stryd Portland, Abertawe, SA1 3DH
01792 739100 | swansea@swansea-bs.co.uk